Gwirfoddoli Cymru
Volunteering Wales

WCVA
CGGC

Ariennir gan
Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government

Prif Grant Gwirfoddoli Cymru – Dyfarniadau Cylch 3

Enw'r mudiad	Disgrifiad 50 gair	Dyfarniad grant
Undeb Myfyrwyr Prifysgol Aberystwyth	Wrth gefnogi bywyd myfyrwyr, rydym yn meithrin diwylliant o rymuso, cynhwysiant a chynaliadwyedd. Gan anelu at ateb galwadau cynyddol myfyrwyr, mae ein hamcanion yn cynnwys cynyddu ymgysylltiad, datblygu cyfleoedd amrywiol, ymwreiddio diwylliant o wirfoddoli a mesur effeithiau. Rydym yn cael ein harwain gan unigolyn ymroddedig, ac yn ceisio gwella cysylltiadau cymunedol a rhoi arferion hirhoedlog ar waith.	£25,000.00
Cyngor Canolbarth Cymru	Nodau'r prosiect yw sicrhau amrywiaeth a chreu rolau a chyfleoedd gwirfoddoli newydd o fewn Canolfan Gynghori Annibynnol hirsefydlog, gan ganiatáu i'n cenhedlaeth bresennol o wirfoddolwyr ymroddedig a phrofiadol basio eu gwybodaeth a'u sgiliau ymlaen i'r genhedlaeth nesaf o Gynghorwyr Cyffredinol.	£23,373.80
Advocacy Support Cymru	Nod y Prosiect Gyda'n Gilydd yw cynnwys y rheini â phrofiad bywyd o broblemau iechyd meddwl/gallu meddyliol er mwyn datblygu a gwella gwasanaethau ASC. Bydd yn cefnogi eu profiadau a'u harbenigeddau ac yn hybu cynhwysiant cymdeithasol; yn rhoi'r cyfle iddynt ddatblygu gwybodaeth, sgiliau a hyfforddiant ar gyfer cyflogaeth a lles personol yn y dyfodol.	£24,999.80
Canolfan Gymunedol Affrica	Bydd 'Elevate' yn paratoi ceiswyr lloches a ffoaduriaid ifanc i wirfoddoli i helpu i arwain HarMINDise, ein prosiect gwydnwch a newid systemau pobl ethnig leiafrifol ifanc. Bydd 'Elevate' yn paratoi oedolion sy'n geiswyr lloches a ffoaduriaid ar gyfer gwirfoddoli mewn dosbarthiadau Saesneg ar gyfer Siaradwyr Ieithoedd Eraill (ESOL) (gofal plant ac addysgu) ac yn eu dysgu i yrru ein fan fach.	£24,973.60
Barnardo's Cymru	Bydd Barnardo's Cymru yn creu cyfleoedd gwirfoddoli ffurfiol i unigolion o bob oed â phrofiad bywyd o anabledd, o fewn sir Pen-y-bont ar Ogwr a De Cymru. Gan eu hystyried fel arbenigwyr yn eu maes, byddant yn gweithio ochr yn ochr â thîm Atebion Barnardo's, gan gynnig mentora cymheiriaid, cyfeillachwr, cymorth gweinyddol a chymorth i hwyluso grwpiau i deuluoedd.	£24,998.54

Gwyliau'r Mynydd Du	Bydd Rhaglen Wirfoddoli Gwyliau'r Mynydd Du yn rhoi profiad i bobl ifanc ac oedolion sy'n dychwelyd i'r gweithle o weithio yn y maes rheoli digwyddiadau byw. Mae ein gwirfoddolwyr yn rhan annatod o'n llwyddiant – bydd y cyllid hwn yn ein galluogi i'w cynorthwyo drwy raglen o gyfleoedd a digwyddiadau.	£9,000.00
Clybiau Bechgyn a Merched Cymru	Mae ein menter yn CBM Cymru yn canolbwyntio ar wella ansawdd gwirfoddoli drwy safoni'r hyfforddiant. Ein nod yw cynnig dysgu digidol, hygyrch i bob gwirfoddolwr ar draws ein rhwydwaith o glybiau. Mae hyn yn sicrhau profiad hyfforddi cyson a chynhwysol, ac yn hybu rhagoriaeth mewn gwirfoddoli drwy gydol ein mudiad.	£11,900.00
MIND Aberhonddu a'r Cylch	Nod y prosiect 12 mis hwn yw creu diwylliant gwirfoddoli sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn o fewn Mind Aberhonddu. Byddwn yn buddsoddi mewn datblygu polisi ac arferion gwirfoddoli'r mudiad er mwyn ymwreiddio gwirfoddoli ymhlith yr holl staff a lleihau'r ddibyniaeth ar un 'cydlynydd' i reoli gwirfoddolwyr.	£25,000.00
Ymchwil Canser Cymru	Byddwn yn trawsnewid ein dull o fynd ati i wirfoddoli, gan greu diwylliant gwirfoddoli cynaliadwy a fydd yn sail i'n gwaith bob dydd. Byddwn yn cyflogi ein Cydlynydd Gwirfoddolwyr cyntaf a fydd yn adolygu ein polisi ac arferion gwirfoddoli, yn recriwtio a hyfforddi gwirfoddolwyr mewn rolau o ansawdd uchel ac yn gweithio tuag at gyflawni'r safon Buddsoddi mewn Gwirfoddolwyr.	£22,933.00
Gardd Salad Caerdydd	Bydd Gardd Salad Caerdydd yn datblygu partneriaeth â Gerddi Cymunedol Glan-Yr-Afon a Grow Cardiff i wella'r profiad gwirfoddoli i wirfoddolwyr presennol y ddau fudiad, cynyddu nifer y gwirfoddolwyr newydd ac ansawdd profiad y gwirfoddolwyr, ehangu addysg, a chynyddu'r cynnyrch i'w defnyddio gan wirfoddolwyr a chwmnïau bwyd cydweithredol lleol.	£24,162.20
Cymorth i Fenywod Caerdydd	Nod 'Growing Diversity in Volunteering' yw ymwreiddio diwylliant gwirfoddoli grymus a chynhwysol sy'n cael effaith drwy gydol gwasanaethau Cymorth i Fenywod Caerdydd. Rhan o'n nod 3 blynedd yw gwella ein cynnig o gyfleoedd gwirfoddoli o ansawdd uchel, gan ymgysylltu ar draws cymunedau i ddatblygu ein cenhadaeth i ddifa trais ar sail rhywedd.	£13,425.11
Prosiect Ieuenctid a	I gyflogi Cydlynydd Gwirfoddolwyr Ifanc, i recriwtio, rheoli a chynorthwyo	£23,844.00

Chymuned Cathays a Central	oddeutu 30 o wirfoddolwyr ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol a/neu'r rheini sydd wedi cael profiad niweidiol yn ystod plentyndod. Byddai'r cyfleoedd gwirfoddoli yng Nghanolfan Cymunedol Cathays ar nifer o brosiectau cyfredol.	
Elusen y Ganolfan Dechnoleg Amgen Cyf (CAT)	Bydd CAT yn recriwtio Rheolwr Gwirfoddoli i wella a chynyddu ein cynnig gwirfoddoli. Mae gan CAT hanes hir o weithio gyda gwirfoddolwyr, a bydd y gallu ychwanegol hwn yn ein galluogi i amrywio'r cyfleoedd sydd ar gael a denu carfan ehangach o wirfoddolwyr, gan alluogi pobl i brofi buddion ein hamgylchedd unigryw.	£24,738.00
Cerebral Palsy Cymru	Byddwn yn creu cyfleoedd gwirfoddoli newydd yng Nghaerdydd a'r Fro a Rhondda Cynon Taf i bobl ddatblygu eu sgiliau a gwella eu llesiant. Bydd Cydlynydd Gwirfoddolwyr newydd yn datblygu strategaeth wirfoddoli newydd, ymgyrch recriwtio wedi'i thargedu sy'n mynd i'r afael â'r rhwystrau i ymgysylltu a nodwyd a sylfaen mwy amrywiol o wirfoddolwyr sy'n cael eu gwerthfawrogi.	£25,000.00
Her Cymru	Cael gwared â'r rhwystrau i wirfoddoli gan alluogi mwy o bobl ifanc ac oedolion i gael gafael ar gyfleoedd gwirfoddoli ar y môr gyda Her Cymru. Bydd creu Panel Ieuenctid a rhoi hyfforddiant ar-lein ac wyneb yn wyneb yn gwella lles meddyliol gwirfoddolwyr.	£16,258.91
Cyngor ar Bopeth Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot	Yn aml, ein gwirfoddolwyr yw'r pwynt cyswllt cyntaf i'n cleientiaid. Ein nod yw cynyddu nifer ein gwirfoddolwyr o blith pobl hil leiafrifiedig, cymunedau o dan anfantais economaidd a chymdeithasol a phobl o ardal Castell-nedd Port Talbot, er mwyn adlewyrchu'r cymunedau rydyn ni'n byw gyda nhw'n well.	£24,996.00
City Hospice	Llwybr datblygu gwirfoddolwyr yw 'Adnabod, magu a llifo' sydd wedi'i ddylunio i gefnogi gwirfoddoli positif, o ansawdd uchel, a hybu pobl i gymryd rhan effeithiol dros oes y gwirfoddoli. Mae hwn yn seiliedig ar 'adnabod' ein gwirfoddolwyr a'u hanghenion, 'magu' hyder a gallu, a sicrhau bod sgiliau'n 'llifo' ar draws yr elusen er mwyn cael cymaint â phosibl o ddiben ac effaith.	£24,071.55
Ymddiriedolaeth Datblygu Corneli	Nodau'r prosiect yw datblygu gwirfoddoli ym Mhantri Bwyd Corneli, diwallu'r angen fyth gynyddol am gymorth bwyd â chymhorthdal a bwyd am	£7,882.00

	ddim o fewn y gymuned leol. Rydym yn ceisio gweithio gyda gwirfoddolwyr â chyflyrau niwroamrywiaeth o bob rhan o'r ardal, gan adeiladu eu sgiliau a'u hannog i roi eu mewnbwn.	
Cruse Bereavement Care	Gogledd Cymru yw cangen fwyaf Cruse Cymru. Y llynedd, derbyniodd y tîm dros 1,000 o atgyfeiriadau, y mwyaf erioed, ac mae ganddynt restr aros o fwy na 350 o bobl. Byddwn yn hybu'r gallu ac yn cefnogi mwy o bobl mewn galar drwy gynyddu nifer y gwirfoddolwyr a gwella llesiant a boddhad er mwyn cynorthwyo cyfraddau cadw hanfodol.	£24,878.00
Cultivate (Cwm Harry) Cyfyngedig	Bydd Cultivate yn cyflogi Cydlynydd Gwirfoddolwyr i adolygu'r gweithdrefnau gwirfoddoli a rhoi newidiadau ar waith. Gwirfoddoli sydd wrth wraidd Cultivate a bydd y cydlynydd yn recriwtio gwirfoddolwyr gan ganolbwyntio ar grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol. Bydd y gwirfoddolwyr yn ennill sgiliau a gwybodaeth, iechyd a lles ac yn cydnabod bod ganddynt rôl werthfawr i'w chwarae yn y gymuned.	£25,000.00
Cymdeithas Eryri Snowdonia Society	Trwy ddiwrnodau gwaith gwarchod ymarferol, byddwn yn gweithio gyda gwirfoddolwyr a phartneriaid i amddiffyn, gwella a dathlu Eryri.	£24,917.48
Tîm Cymorth Lleiafrifoedd Ethnig ac Ieuenctid	Bydd Pŵer Gwirfoddoli yn denu ac yn cynorthwyo pobl o gymunedau ethnig leiafrifol i ymgymryd â chyfleoedd gwirfoddoli ystyrlon a defnyddio'u sgiliau, eu gwybodaeth a'u creadigrwydd er budd cymunedau yng Nghaerdydd ac Abertawe. Bydd cymryd rhan mewn gwirfoddoli hefyd yn gwella iechyd meddwl, llesiant a rhagolygon gyrfa pob unigolyn.	£23,229.00
Family Action	Mae Clybiau FOOD Family Action yn cynnig bwyd o ansawdd da am bris isel i deuluoedd sy'n wynebu ansicrwydd bwyd. Byddwn yn recriwtio Cydlynydd Gwirfoddolwyr newydd penodedig a fydd yn arwain y gwaith o ddatblygu ac ymwreiddio cynnig gwirfoddoli o ansawdd uchel o fewn ein Clybiau FOOD yng Nghaerdydd a Sir Fynwy.	£24,980.45
Good Neighbours in North Cardiff	Rydym yn cynnig cymorth i'r boblogaeth fwyaf o bobl oedrannus yng Nghaerdydd, a disgwylir i hyn gynyddu 15% yn ystod y ddeng mlynedd nesaf. Rhaid i ni foderneiddio er mwyn darparu gwasanaethau gwirfoddol amrywiol a chynhwysol a fydd yn denu ac yn cadw gwirfoddolwyr i ddarparu gwasanaethau effeithiol ac effeithlon, gan alluogi pobl i aros yn eu cartrefi	£20,687.62

	eu hunain.	
Ymddiriedolaeth Dyffryn Maes Glas	Bydd ein prosiect yn rhoi'r cyfle i ni gynyddu ein cyfleoedd gwirfoddoli ar draws ein safle 70 erw. Byddwn yn cael gwared â'r rhwystrau i wirfoddoli, gan gynyddu amrywiaeth ac ehangu cyfleoedd i'r gymuned leol ac ehangach, yn enwedig i bobl ifanc, pobl hŷn a'r rheini ag anableddau corfforol, amhariad ar y synhwyrau neu anawsterau iechyd meddwl.	£25,000.00
Groundwork Gogledd Cymru	Bydd Groundwork Gogledd Cymru yn creu rôl ar gyfer Cydlynydd Gwirfoddoli Grŵp. Ei ddiben fydd sicrhau bod gwirfoddolwyr yn cael eu cefnogi, cynyddu ystod, cwmpas a nifer y cyfleoedd gwirfoddoli a gwella gwerth a phrofiad gwirfoddoli, gan ganolbwyntio ar gyd-fynd â'n Safon Ansawdd Buddsoddi mewn Gwirfoddolwyr.	£24,963.66
Home-Start Conwy	Ochr yn ochr â chymorth traddodiadol Home-Start i deuluoedd a phlant, mae ein canolfan cymunedol newydd yn cynnig amrediad o gyfleusterau a chyfleoedd i'r gymuned. Rydym yn ehangu ac yn cyflwyno mentrau newydd ac angen recriwtio a chynorthwyo mwy o wirfoddolwyr i redeg y rhaglenni cyffrous hyn.	£18,388.28
Home-Start Cymru	Bydd y cynllun peilot yn profi dull gweithredu cydgynhyrchiol gyda gwirfoddolwyr drwy recriwtio Swyddog Recriwtio Rhanbarthol yn ne Cymru. Bydd y cynllun peilot yn nodi ac yn datblygu partneriaethau newydd, yn recriwtio gwirfoddolwyr newydd, yn cyd-ddatblygu rolau newydd, yn gwella profiad y gwirfoddolwr ac yn cryfhau ein cymuned drwy ddigwyddiadau ymgysylltu, fforymau 'sgwrsio' a chynllun cyfeillio.	£22,254.32
Hosbis y Cymoedd	Nod y prosiect hwn yw gwella'r mynediad at wirfoddoli i bobl o bob oed ac o bob rhan o gymdeithas drwy chwalu rhwystrau, ymgysylltu â phobl o wahanol gefndiroedd ym Mlaenau Gwent a thrwy greu rolau gwirfoddoli mwy amrywiol a fydd yn apelio at wahanol fathau o wirfoddolwyr ac yn cyflwyno buddion iddynt.	£24,898.00
Ymddiriedolaeth Y Tabernacl Machynlleth	Menter gydweithredol sy'n ceisio ehangu, cyfoethogi a grymuso rhwydwaith gwirfoddoli MOMA Machynlleth wrth i'r mudiad gymryd cam newydd cyffrous tuag at ei ddatblygiad. Wedi'i seilio ar y themâu datblygu, grymuso, llesiant a chydlynu, nod y prosiect hwn yw meithrin dyfodol cytûn a chynaliadwy ar gyfer ein gwirfoddolwyr gwerthfawr.	£22,424.00

Megan Starr Foundation	Rhoi cymorth i bobl ifanc yn ein cymuned, gan gynnwys pobl ifanc sy'n derbyn gofal, y rheini nad ydynt mewn cyflogaeth nac addysg a'r rheini o gefndiroedd difreintiedig a thlawd. Cydlynu cyfleoedd gwirfoddoli a rhaglenni gwirfoddolwyr sy'n meithrin twf personol a phroffesiynol ac yn hyrwyddo llesiant a chymorth iechyd meddwl. Bod yn bwynt cyswllt diogel a dibynadwy.	£24,988.24
Cwmni Buddiannau Cymunedol Ministry of Life Education	Dros gyfnod o flwyddyn, byddwn yn cryfhau tîm o 50 o wirfoddolwyr i helpu gyda gweithgareddau cymunedol. Bydd y gweithgareddau hyn yn cynnwys helpu i drefnu, cyflwyno a chymryd rhan mewn digwyddiadau cerddorol cymunedol, adeiladu eco-ardd gymunedol a helpu i gynnal gweithdai cerddoriaeth yn y gymuned.	£10,580.00
Cyngor ar Bopeth Sir Fynwy	Mae ein Gwasanaeth Cyngor Gwirfoddol (VAS) yn cyflwyno rhaglen hyfforddiant a sgiliau rhagorol ym mhob maes cyngor ac arweiniad, gweinyddiaeth a chyfathrebu. Bydd VAS yn recriwtio ac yn hyfforddi gwirfoddolwyr lleol i roi cyngor cyffredinol ac arbenigol ar blatfformau lluosog, gan gynnwys wyneb yn wyneb, dros y ffôn ac ar sgwrs dros y we.	£25,000.00
Mudiad Meithrin	Bydd y prosiect hwn yn denu gwirfoddolwyr newydd i gefnogi Cylchoedd Ti a Fi a Chylchoedd Meithrin. Dyma gyfle i unigolion i ddatblygu a defnyddio eu harbenigeddau a'u sgiliau er mwyn cyfrannu at ffyniant eu Cylchoedd lleol trwy ddatblygu eu sgiliau proffesiynol a phersonol, ac ehangu eu dealltwriaeth o'r maes.	£24,368.92
Newbridge Memo	Mae Newbridge Memo eisiau cyllid i gyflogi Hyfforddwr/Cydlynydd Gwirfoddolwyr rhan-amser a fydd yn cynorthwyo ac yn grymuso gwirfoddolwyr ag amrediad o anghenion cymorth drwy deilwra rolau i'w diddordebau a'u huchelgeisiau a'u hannog i ddatblygu prosiectau y gall pobl sydd wedi'u hynysu yn y gymuned ehangach gymryd rhan ynddynt.	£21,554.04
New Pathways Family Friendly Therapeutic Centre of Excellence	Mae'r rheini sydd wedi dioddef trais rhywiol a'u teuluoedd wedi dweud wrthym fod lles y teulu (rhieni, brodyr a chwiorydd, gofalwyr) hefyd yn cael ei chwalu gan drais rhywiol, a bod teuluoedd yn gweiddi am help a chymorth i ofalu am eu hunain a'r goroeswr. Bydd y prosiect hwn yn rhoi cymorth therapiwtig i'r teuluoedd hyn.	£24,900.80

NoFit State Community Circus Cyf	Byddwn yn cynnig cyfleoedd gwirfoddoli creadigol i rai o bobl fwyaf difreintiedig dwyrain Caerdydd, gan bontio'r bwlch a bod yn borth i bobl gymryd rhan weithredol mewn gweithgareddau creadigol lleol sy'n dathlu eu hamrywiaeth ac yn gwneud ein cymunedau yn lleoedd gwell i fyw, gweithio a chwarae ynddynt.	£24,968.50
Mind Gogledd-ddwyrain Cymru Cyf	Hoffem gyflogi cydlynydd gwirfoddolwyr, a fydd yn ein galluogi i gyflawni safonau o ansawdd uchel i'n gwirfoddolwyr, gan gynnwys cyfleoedd hyfforddiant a chyflogaeth. Byddwn yn cydweithio â gwirfoddolwyr presennol i wella eu profiad ac yn recriwtio gwirfoddolwyr newydd i gyflwyno gwasanaethau cymorth iechyd meddwl ar draws Sir y Fflint a Wrecsam, gan gynnwys datblygu hybiau Cymraeg eu hiaith.	£23,833.27
Plant Dewi	Hoffem benodi aelod staff penodol i ymwreiddio gwirfoddoli o fewn ein mudiad. Byddwn yn gwella'r profiad a'r cymorth a gynigir i wirfoddolwyr presennol ac yn denu gwirfoddolwyr newydd a all fod wedi wynebu rhwystrau i wirfoddoli.	£24,595.04
Chwarae Maesyfed /Play Radnor	Cyflogi swyddog gwirfoddoli i hyrwyddo ein mudiad, ei gyfleoedd gwirfoddoli ac i roi cymorth, gan sicrhau profiadau gwerth chweil o'n gwirfoddolwyr.	£14,822.00
Cymuned Recovery Cymru	Bydd prosiect Teulu a Ffrindiau Recovery Cymru yn hyfforddi ac yn cynorthwyo pobl yng Nghaerdydd a'r Fro sydd wedi'u heffeithio gan rywun arall sy'n camddefnyddio sylweddau, gan gynnig cymorth cymheiriaid i eraill, codi ymwybyddiaeth, herio stigma a helpu i greu cymuned teulu a ffrindiau, ac wrth wneud hyn, gwella eu lles.	£24,976.00
Trwsio a Rhannu (sy'n masnachu fel Caffi Trwsio Cymru)	Caffi trwsio a llyfrgell pethau ar Stryd Fawr Casnewydd yw RE:MAKE Casnewydd. Mae gwirfoddolwyr yn cynnig trwsio eitemau cartref am ddim ac yn helpu'r cyhoedd i gael mynediad at ein 'Llyfrgell Pethau' sy'n cynnig ffordd gost-effeithiol i'n cymuned gael effaith amgylcheddol bositif ac achub eitemau y gellir eu defnyddio rhag mynd i safleoedd tirlenwi.	£24,998.32
Elusen Profedigaeth Plant Sandy Bear	Nod prosiect Sandy Bear yw cadw a diddori gwirfoddolwyr cyfredol gorllewin Cymru, gan recriwtio ac uwchsgilio gwirfoddolwyr newydd ledled Cymru yn unol â chynllun datblygu strategol yr elusen. Bydd y datblygiad yn cynnig cyfleoedd i bobl o bob oed a phob cefndir mewn rolau amrywiol, gan	£24,686.40

	gynnwys cymorth ar ôl profedigaeth, llysgenhadon ieuenctid a chodi arian.	
Sight Life	Bydd y prosiect yn rhoi hyfforddiant i wirfoddolwyr i wella ymgysylltiad â phobl ag amhariad ar y golwg. Bydd yn grymuso 60 o wirfoddolwyr i gefnogi pobl sydd wedi colli eu golwg mewn lleoliadau allweddol yng Nghaerdydd. Bydd hefyd yn hyfforddi wyth gwirfoddolwr cynhwysiant digidol i roi cymorth i bobl sydd wedi colli eu golwg.	£24,707.28
Sistema Cymru Codi'r To (Raise the Roof)	Mae Codi'r To eisiau ymhél â 12 Gwirfoddolwr Cerddoriaeth Cymraeg i wella'r mynediad i'n rhaglen addysg gerddoriaeth gyfredol i blant rhwng 5 ac 11 oed. Byddwn hefyd yn cynnig rolau gwirfoddoli nad ydynt yn gerddorol er mwyn ymwreiddio rhoi unigol i mewn i'n strategaeth datblygu busnes.	£15,088.00
Canolfan Datblygu Cymunedol De Glan-Yr-Afon	Bydd Let's Interpret yn recriwtio, yn cefnogi ac yn hyfforddi menywod dwyieithog/amlieithog i ddod yn wirfoddolwyr iaith cymunedol. Byddwn yn gweithio'n fewnol a chyda mudiadau partner lleol i gynnig cyfleoedd gwirfoddoli o ansawdd uchel sy'n caniatáu i gyfranogwyr roi eu sgiliau iaith ar waith, er eu budd nhw a budd eu cymuned leol.	£24,572.00
Y Gymdeithas Strôc	Gyda chyllid CGGC, byddwn yn recriwtio Rheolwr Gwirfoddolwyr yn ne Cymru i dyfu ein cymuned o wirfoddolwyr a rhoi'r hyfforddiant a'r cymorth sydd eu hangen arnynt i ragori yn eu rôl. Gyda rhwydwaith o wirfoddolwyr parod wedi'u grymuso, gallwn adeiladu cymuned strôc iach, gydlynus a ffyniannus yng Nghymru.	£24,913.20
Fferm Gymunedol Abertawe	Rhaglen hyblyg ar fferm sy'n canolbwyntio ar lesiant i bobl ifanc rhwng 14 a 25 oed, yn cynnwys hyfforddiant ar fentora cymheiriaid. Mae wedi'i dylunio i annog a chefnogi gwirfoddoli ymhlith pobl â rhwystrau i waith a chyfranogiad cymdeithasol.	£24,967.72
Fferm Tal y Sarn	Gall pobl ifanc, yn enwedig y rheini ag anghenion ychwanegol fel niwroamrywiaeth ac iechyd meddwl, ddod i'n fferm am gymorth cymunedol, lle byddant yn helpu i ofalu am ein hanifeiliaid. Hoffem hefyd ddarparu unedau achrededig mewn gofal anifeiliaid er mwyn rhoi'r cyfle i ennill credydau tuag at gymwysterau.	£19,200.00
Gofal Canser Tenovus	Mae canser yn cyffwrdd â phob un ohonom ni: bydd hanner ohonom yn ei gael. Bydd rôl newydd, a luniwyd gan wirfoddolwyr ar gyfer gwirfoddolwyr,	£25,000.00

	yn helpu i wneud cymorth canser yn hygyrch i bawb; bydd Hyrwyddwyr Cymunedol ar hyd a lled Cymru yn cysylltu pobl o fewn cymunedau, gan symud y cymorth y tu hwnt i leoliadau ysbyty a gyrru cydlyniant cymdeithasol i bobl â chanser.	
Ymddiriedolaeth Terrence Higgins (THT)	Mae THT yn cynnig cynllun peilot a fydd yn grymuso gwirfoddolwyr de Cymru i ddod yn gefnogwyr iechyd rhywiol yn eu cymunedau. Byddwn yn creu seilwaith i ddefnyddio cysylltiad cymunedol mewn ymgyrchoedd cenedlaethol sy'n mapio ac yn mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd rhywiol ac yn helpu cymunedau lleol i lunio gwasanaethau ac ymgyrchoedd iechyd rhywiol yng Nghymru/dros Gymru yn y dyfodol.	£25,000.00
Trash Free Trails	Rydym eisiau adeiladu cymunedau cryfach o wirfoddolwyr ledled Cymru sy'n diogelu ein llwybrau a'r mannau gwyllt y maen nhw'n ein tywys ni atynt. I wneud hyn, byddwn yn cyflogi Rheolwr Cymunedol, yn creu Hybiau Cymunedol gwirfoddol newydd ac yn datblygu ein cynnig arloesol a chynhwysol i wirfoddolwyr mewn ardaloedd allweddol yng Nghymru.	£24,846.00
Prosiect Awen	Rydym yn cynnig cyfleoedd gwirfoddoli eithriadol i blant ac oedolion fel ei gilydd sy'n seiliedig ar natur. Byddwn yn defnyddio'r grant hwn i gyflogi cydlynydd gwirfoddolwyr i helpu i lunio cyfleoedd ac i arwain a goruchwylio ein gwirfoddolwyr mewn modd diogel a chefnogol.	£25,000.00
The Gap - Wales	Bydd y prosiect yn rhoi strategaeth wirfoddoli newydd yn ei lle a fydd yn ein helpu i wella cyfleoedd i wirfoddolwyr, yn enwedig gwirfoddolwyr sy'n Ffoaduriaid neu'n Geiswyr Lloches, a fydd yn eu galluogi i feithrin sgiliau, magu hyder ac integreiddio i mewn i'r gymuned.	£23,939.00
Grŵp Sefydliad Gellideg	Creu cyfleoedd gwirfoddoli cyfoethog, o ansawdd uchel wedi'u cydgynllunio â gwirfoddolwyr, staff ac aelodau o'r gymuned. Cael gwared â'r rhwystrau i wirfoddoli, galluogi pawb i gymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n werth chweil yn gymdeithasol ac sy'n cyflwyno buddion i'r gymuned a'r unigolyn, mewn diwylliant sy'n dathlu ac yn cydnabod gwirfoddoli.	£24,999.64
Cymdeithas Cŵn Tywys y Deillion	Bydd Volunteers in Action yn cynnig 40 o gyfleoedd gwirfoddoli o ansawdd uchel i unigolion gynorthwyo gweithrediadau elusennol y Cŵn Tywys ledled Cymru. Bydd y prosiect yn cynnwys profi a dysgu o ddulliau gweithredu newydd er mwyn cynyddu'r amrywiaeth o wirfoddolwyr a nifer y	£24,512.00

	gwirfoddolwyr o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol, y rheini sy'n agored i gael eu hallgau'n gymdeithasol a chydag anghenion cymorth uwch.	
Ymddiriedolaeth y Tywysog	Mae Ymddiriedolaeth y Tywysog yn dibynnu ar wirfoddolwyr i roi cymorth hanfodol i bobl ifanc difreintiedig sy'n cymryd camau positif ar y daith i (hunan)gyflogaeth. Mae'r prosiect hwn yn ceisio helpu i amrywio ein cronfa o wirfoddolwyr lleol, gwella profiad y gwirfoddolwr a gwella ein prosesau a'n gweithdrefnau ar gyfer recriwtio a chadw ein gwirfoddolwyr.	£25,000.00
The S.A.F.E Foundation	Bydd Rheolwr Digwyddiadau Gwirfoddol "SAFE" yn cyflwyno cyfleoedd gwirfoddoli cyffrous a bywiog i bobl ifanc o gefndiroedd difreintiedig fel y gallant feithrin eu sgiliau a'u hyder wrth ehangu eu rhwydwaith personol a phroffesiynol a'u paratoi nhw ar gyfer y camau nesaf. Darparu pwynt mynediad i mewn i fyd rheoli digwyddiadau ac entrepreneuriaeth."	£24,967.15
The Sporting Memories Foundation	Bydd Sporting Memories Wales yn tyfu ac yn datblygu eu gweithlu o wirfoddolwyr i gefnogi pobl hŷn drwy hwyluso Clybiau Cymunedol wythnosol lleol sy'n darparu gweithgareddau corfforol cymdeithasol a chynhwysol sy'n procio'r cof er mwyn gwella llesiant meddyliol a chorfforol pobl hŷn (50+) sydd wedi'u hynysu ac yn byw â dementia, iselder a chyflyrau hirdymor eraill.	£23,470.80
Tools for Self Reliance Cymru	Mae'r gweithgareddau wedi'u crynhoi fel a ganlyn: 1. Darparu cwrs hyfforddiant gweithdy achrededig i'n gwirfoddolwyr. 2. Newid ein hen fan am un newydd. 3. Gwella ein cyfleusterau toiled. 4. Cynnal ymgyrch i recriwtio cronfa fwy amrywiol o wirfoddolwyr. 5. Gwella'r cynnwys Cymraeg.	£22,460.00
Urdd Gobaith Cymru	Mae rhaglen Gwirfoddoli Chwaraeon yr Urdd yn uwchsgilio 60 o wirfoddolwyr 16-25 oed i'w galluogi i gefnogi gweithgareddau chwaraeon i blant a phobl ifanc yn y Gymraeg. Bydd yn cynnwys; cyfleoedd i ennill cymwysterau, chwaraeon, cit, cyfleoedd i ymuno â fforymau gwirfoddoli chwaraeon yr Urdd, mentora, a chael profiad trwy wirfoddoli.	£24,437.52
Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre	Mae datblygu'r Rhaglen Wirfoddoli i gefnogi mynediad ehangach drwy wirfoddoli yn canolbwyntio'n benodol ar y lleisiau hynny nas clywir yn aml, llwybrau gwirfoddoli i yrfa a chyfleoedd micro-wirfoddoli i gynyddu	£24,144.00

	hygyrchedd. Bydd y rhaglen hefyd yn datblygu'r gwasanaeth cyfeillio, Ffrind i mi, ac achrediad Buddsoddi mewn Gwirfoddolwyr.	
Versus Arthritis	Bydd y prosiect Gwella a Hyrwyddo Cymorth a Hyfforddiant i Wirfoddolwyr (IPVST) ar gyfer y Gymuned Arthritis yng Nghymru yn mireinio a gwella cynnig, profiad a hyfforddiant Versus Arthritis i wirfoddolwyr; sicrhau y bydd gan bobl ag arthritis ledled Cymru fynediad at gyfleoedd gwirfoddoli o ansawdd uchel a fydd yn cryfhau eu cymunedau.	£24,996.00
Wastesavers Charitable Trust Limited	Bydd Wastesavers yn ehangu ei gynnig i wirfoddolwyr cyfredol a darpar wirfoddolwyr ar ei 10 prosiect ledled De Cymru drwy weithgareddau Ailddefnyddio a Thrwsio. Mae hyn yn cynnwys yr holl siopau, caffis trwsio, llyfrgell cewynnau, TG a llyfrgell pethau, ynghyd â mentora cymheiriaid i wirfoddolwyr newydd weithio mewn partneriaeth â gwirfoddolwyr profiadol.	£24,060.16
Canolfan Materion Rhyngwladol Cymru	Bydd gwirfoddolwyr o chwe ardal yng Nghymru yn derbyn hyfforddiant cyfryngau ac allgymorth ac yn dod yn Negeseuwyr Hinsawdd. Byddant yn gweithio o fewn eu cymunedau ac ochr yn ochr â thîm cyfryngau Climate Cymru, gan greu ymgyrchoedd cyffrous sy'n cysylltu cymunedau Cymru â materion byd-eang, ac yn bwydo i mewn i'n strategaeth am Gymru wydn sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang.	£25,000.00
With Music in Mind	Byddwn yn cynyddu cyfleoedd gwirfoddoli yn ein cymuned ac yn galluogi mwy o wirfoddolwyr i gymryd rhan â'n menter newydd, sef hyb cymunedol oed-gyfeillgar a fydd yn gwasanaethu Gorllewin y Fro. Byddwn yn gwella boddhad gwirfoddolwyr drwy recriwtio cydlynydd gwirfoddolwyr ar gyfer yr hyb ac yn integreiddio cyfleoedd newydd i mewn i'n gwasanaeth presennol.	£24,910.36
Cyngor ar Bopeth Wrecsam	Bydd y prosiect hwn yn canolbwyntio ar gynyddu ac amrywio ein cronfa o wirfoddolwyr, gan roi cyfle i ddatblygu sgiliau cyflogadwyedd. Ein nod yw dod yn fwy hygyrch, ac yn benodol, i gynyddu'r ieithoedd cymunedol rydym yn eu cynnig, er mwyn cyrraedd ac ymateb i anghenion cymuned ehangach Wrecsam.	£21,484.44
Y Bartneriaeth Awyr Agored	Bydd ein prosiect, Llysgenhadon Gwirfoddol, yn galluogi'r Bartneriaeth Awyr Agored i recriwtio gwirfoddolwyr i weithio'n uniongyrchol gyda ni; bydd yn ymhel â chymunedau yng Nghymru i ddefnyddio'u hamgylchedd naturiol i	£24,897.70

	wella iechyd a lles pobl. Bydd yn cynnig cyfleoedd gwirfoddoli o ansawdd uchel a fydd yn buddsoddi mewn datblygu gwirfoddolwyr, gan ganiatau iddynt ffynnu.	
Ymddiriedolaeth Penllergare	Bydd y rhaglen hon yn bartneriaeth gydweithredol rhwng Ymddiriedolaeth Penllergare a Chwmni Buddiannau Cymunedol Happy Headwork Community. Nod y prosiect yw cynorthwyo aelodau'r gymuned sy'n profi heriau gyda'u hiechyd meddwl a lles emosiynol i gynyddu canlyniadau iechyd meddwl a chymryd rhan mewn cyfleoedd gwirfoddoli ym myd natur yng Nghoed Cwm Penllergare.	£23,534.00